

Ymateb i argymhellion a gyflwynwyd yn adroddiad Ail-egniö Cymru gan y Sefydliad Materion Cymreig 'Ariannu Prosiectau Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru'

Y rhwystrau i fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru

- 1. Dylai Llywodraeth Cymru, sefydliadau anllywodraethol a phartion eraill archwilio'n gryf yr angen i ddatganoli amrywiaeth o bwerau dros osod cymhorthdal ynni adnewyddadwy i Gymru. Mae polisïau cefnogi ynni cynaliadwy, wedi'u dylunio'n dda ac wedi'u hamserlenni, yn hanfodol i ddenu cyllid a gwella proffiliau risg ac enillion.**

Bydd Deddf Cymru'n datganoli pwerau i Weinidogion Cymru ar ynni cydsyniol, gwres a thrwyddedu olew a nwy ar y tir. Rhoddir y pwerau i ddarparu cefnogaeth i gynhyrchu ynni drwy fecanweithiau megis Contractau er Gwahaniaeth, Tariff Cyflenwi Trydan a Chymhelliad Gwres Adnewyddadwy i Lywodraeth y DU o dan y Ddeddf Ynni. Nid ystyriwyd eu datganoli yn adolygiad Silk, a roddodd cychwyn i'r Ddeddf bresennol. Er bod cysondeb trefnau cefnogi ynni ar draws gweinyddiaethau'n rhoi sicrwydd i ddatblygwyr, byddwn yn parhau i ystyried y dystiolaeth am yr angen i ddatganoli pwerau ymhellach wrth gyflwyno cyfrifoldebau datganoledig.

Mae Llywodraeth y DU wedi lleihau'r gefnogaeth sydd ar gael i ynni adnewyddadwy'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Tariff Cyflenwi Trydan a'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy ar fin dod i ben. Felly, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant a chymunedau i nodi ffyrdd o alluogi ynni adnewyddadwy i gael ei leoli mewn amgylchedd heb gymhorthdal. Er enghraifft, rydym yn cefnogi'r prosiect Ynni Lleol ym Methesda, sy'n treialu gwerthu trydan yn lleol, a bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae angen newid rheoliadau i helpu hyn i ddigwydd yn fwy eang.

- 2. Dylai Llywodraeth Cymru lobio Llywodraeth y DU i gael mynediad yn y dyfodol at y mecanwaith Contractau er Gwahaniaeth ar gyfer gwynt ar y tir, i alluogi defnyddio'r dechnoleg hon yn fwy yng Nghymru.**

Mae'r newidiadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud i'r drefn gymhorthdal ar gyfer ynni adnewyddadwy wedi rhoi ansicrwydd i ddatblygwyr, ac wedi cynyddu lefel y risg datblygu wrth roi prosiectau gwynt ar y tir ar waith.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig eisoes wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol deirgwaith yn tynnu sylw at ei phryderon mewn perthynas â'r drefn Contractau er Gwahaniaeth.

Mae angen defnyddio'r dechnoleg fwyaf fforddiadwy yn barhaus ac yn gynyddol, megis gwynt ar y tir a solar, er mwyn cyflwyno'r lefel o

ddatgarboneiddio y mae ei hangen erbyn 2030 am bris fforddiadwy. Mae dod â chefnogaeth i ben yn rhy gynnar, fel y gwnaed yn 2015, yn peryglu niweidio'r sectorau'n angheuol a cholli'r fantais o fuddsoddiad anferthol y sawl sy'n talu'r biliau.

Mae angen i ni hefyd barhau i fod yn flaengar a chyflwyno technoleg y dyfodol. Mae technoleg flaengar, fel y rhai yn y sector ynni morol, yn cynnig y cyfle am ynni fforddiadwy, diogel, carbon isel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth allforio. Yn wir, yng Nghymru, credwn fod cyfle i ddatblygu sector ynni morol llewyrchus. Credwn y dylai'r llwyddiant wrth annog gwynt ar y tir ac oddi arno drwy ddarparu lefelau uwch o gefnogaeth gychwynnol gael ei ailadrodd ar gyfer y sector ynni morol sy'n ymddangos. Ni ellir achub ar y manteision sylweddol ac allforiadwy os oes rhaid iddynt gystadlu yn erbyn technoleg hirsefydledig.

3. Mae angen i Gymru fanteisio ar ffurfiau arbenigol o ariannu, gan gynnwys ariannu mesanîn, er mwyn datblygu buddsoddiad mewn prosiectau ynni adnewyddadwy a sicrhau hyblygrwydd ac amrywiaeth yn y farchnad ynni.

Mae arian yn amlwg yn bwysig ar gyfer cyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy, ond mae angen deall y nodweddion sy'n datblygu hylifedd yn y marchnadoedd ariannu. Mae risg buddsoddi'n allweddol, a dyna pam rydym yn gweld hylifedd cymharol uchel ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy â chymhorthdal a hylifedd cymharol isel ar gyfer technoleg newydd neu brosiectau camau cynnar. Un o nodweddion allweddol lleihau a diddymu cymhorthdal yw, er bod y cymhorthdal yn ffynhonnell werthfawr o incwm, bod gwerth sylweddol hefyd yn y ffaith bod y cymhorthdal yn cael ei gefnogi gan y Llywodraeth a'i fod yn gwarantu incwm. Felly, gellid defnyddio'r incwm hwn i sicrhau ariannu rhad. Mewn byd lle mae cymhorthdal ar gyfer technoleg fwy sefydledig wedi dod i ben bron a bod, mae Llywodraeth Cymru'n archwilio sut gall ei phwysau gael ei ddefnyddio orau i greu hinsawdd buddsoddi fwy deniadol i brosiectau adnewyddadwy Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau bod arian ar gael lle cafwyd methiant yn y farchnad. Mae Gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru'n darparu gwasanaeth cyfannol sy'n ystyried anghenion prosiectau o gamau cynnar i'w cwblhau. Mae wedi darparu grantiau i gymunedau, sy'n dueddol o fod y sefydliadau â'r lleiaf o adnoddau, i gynnal datblygiad cynnar o fwy na 78 o brosiectau dros y saith mlynedd diwethaf. Mae ariannu benthyciadau i ddatblygu prosiectau unwaith mae caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau, ac ar gyfer adeiladu cyfalaf, hefyd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi gymunedau'n rhagweithiol i leihau'r broses ddatblygu drwy brynu prosiectau â chaniatâd gan ddatblygwyr, gan ddod â mwy o gynhyrchu i berchnogaeth leol. Mae ein cefnogaeth i gymunedau sy'n cynnal cynigion cyfranddaliadau lleol wedi galluogi grwpiau i gael cyfalaf rhatach ac i fwy o bobl leol allu manteisio ar ddatblygwyr.

4. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ynni cynaliadwy sy'n mapio amseru, anghenion gallu a lleoliad asedau ynni adnewyddadwy newydd. Bydd hyn yn cynnwys targedau lleoli ac ystyriaethau sy'n benodol i dechnoleg. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad, ar y cyd â'r Grid Cenedlaethol, Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu ac eraill o sut y gellir defnyddio seilwaith grid presennol yn ogystal â newydd yng Nghymru (gogledd, canolbarth a de) i ymateb i ddyheadau ynni penodol Cymru.

Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i'r dyheadau a nodir yn ein dogfen polisi ynni, *Ynni Cymru*. Fis Rhagfyr diwethaf, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylcheddol a Materion Gwledig ddatganiad yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer dyfodol ynni yng Nghymru. Ym mis Medi, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dargedau uchelgeisiol ar gyfer creu ynni yng Nghymru:

- Cymru i gynhyrchu 70% o'r defnydd trydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.
- Perchen ar 1 GW o allu trydan adnewyddadwy yng Nghymru yn lleol erbyn 2030.
- Rhaid i brosiectau ynni adnewyddadwy gael o leiaf elfen o berchnogaeth leol erbyn 2020.

Bydd angen cymysgedd o dechnoleg a meintiau gwahanol, o faint cymunedol i brosiectau sylweddol, i ddiwallu'n hanghenion ynni yn y dyfodol. Mae angen i ni ddefnyddio adnoddau naturiol Cymru i ddatgarboneiddio'n cyflenwad trydan, gan reoli costau a chadw manteision i Gymru.

Rydym yn ystyried sut dylai ein trefnau cynllunio a chaniatâd ddatblygu i roi'r eglurder angenrheidiol i ddatblygwyr ddatblygu cyfleoedd economaidd ar gyfer cynhyrchu carbon isel sydd hefyd yn rhoi manteision i Gymru.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi fframwaith datgarboneiddio â chyfres o dargedau dros dro (2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon bob pum mlynedd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni, fel Llywodraeth, lunio Cynllun Cyflawni sy'n nodi sut byddwn yn bodloni ein cyllideb garbon. Bydd y cynllun yn ymwneud â meysydd allweddol megis ynni, ac yn ystyried mecanweithiau galluogi.

Mae eisoes disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy a charbon isel â pholisïau priodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Rydym wedi cyhoeddi arweiniad i helpu awdurdodau cynllunio lleol i asesu a mapio'r potensial am ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal a datblygu polisïau yn eu cynlluniau datblygu lleol i arwain datblygu priodol.

Mae'n fframwaith polisi cynllunio presennol yn darparu arweinyddiaeth o ran nodi ardaloedd gofodol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt newydd sylweddol. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd yn yr arfaeth yn rhoi'r gallu i ni nodi ardaloedd gofodol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y

dyfodol a fydd yn cynnwys statws cynllun datblygu statudol i'w ddefnyddio wrth benderfynu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Cronfeydd Pensiwn

Rydym yn cefnogi, mewn egwyddor, yr ymagwedd cefnogi datblygu seilwaith carbon isel yng Nghymru. Bydd buddsoddi arian o Gymru mewn datblygiadau yng Nghymru, lle y bo'n briodol, yn dueddol o gadw mwy o fanteision o'r datblygiadau hynny yng Nghymru, gan gefnogi ffyniant. Penderfyniad rheolwyr cronfeydd perthnasol yw asesu lle mae buddsoddiad o'r fath yn bodloni diben y gronfa ac yn rhoi cyfle rhesymol am fuddsoddiad.

- 5. Dylai cronfeydd pensiwn Llywodraeth Leol Cymru leihau eu cysylltiad â buddsoddiad mewn tanwydd ffosil yn sylweddol. Dylai'r holl gyllid nodi ac ystyried y newid yn yr hinsawdd fel risg allweddol, fel yr ategir gan y dyletswyddau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Cynllun Cymru a Lloegr yw'r cynllun pensiwn Llywodraeth Leol ac nid yw wedi'i ddatganoli. Felly, nid yw'n destun y dyletswyddau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er ein bod yn gefnogol o Gronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru'n cadw at yr egwyddorion sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae hefyd angen cydnabod bod cronfeydd pensiwn dan ddyletswydd i sicrhau'r enillion gorau i'w haelodau.

- 6. Dylai holl fyrddau pensiwn y sector cyhoeddus yng Nghymru recriwtio ymgynghorydd neu weithiwr ynni adnewyddadwy profiadol, a chynyddu'r cynnwys yn y diwydiant drwy ymuno â chorff y diwydiant megis y Grŵp Buddsoddwyr Sefydliadol ar y Newid yn yr Hinsawdd.**

Mae aelodaeth pob Bwrdd Pensiwn Llywodraeth Leol yn fater i bob bwrdd benderfynu arni. Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdod Lleol (FfCPALI) yw'r grŵp cynnwys rhanddeiliaid cydweithredol sy'n cynrychioli Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys cronfeydd pensiwn Cymru. Mae FfCPALI yn cefnogi ac yn bartner i nifer o sefydliadau gan gynnwys y Prosiect Datgelu Carbon a'r Rhwydwaith Buddsoddwyr ar Risg yr Hinsawdd.

- 7. Dylai'r gofyniad i fuddsoddwyr (darparwyr cyfalaf, rheolwyr asedau ac ymgynghorwyr) rannu data ar berfformiad, risgiau a chost buddsoddiadau ynni adnewyddadwy, gael ei gryfhau er mwyn gwella tryloywder y farchnad a hyrwyddo'r ddealltwriaeth o broffil risg y buddsoddiadau hyn. Dylai hyn helpu i ddatblygu cydweithio a rhannu gwybodaeth.**

Mae'r argymhelliad hwn yn mynd y tu hwnt i'r cronfeydd pensiwn i gynnwys yr holl fuddsoddwyr mewn prosiectau ynni adnewyddadwy. Nid oes gennym unrhyw bwerau dros fuddsoddwyr ariannol.

Mae Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol yn bodoli i hyrwyddo buddiannau buddsoddi tymor hir cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol y DU, ac yn benodol, i gael y dylanwad mwyaf posibl fel buddsoddwyr i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ymhlith y cwmnïau hynny maent yn buddsoddi ynddynt, yn gymesur â rheoliadau statudol. Mae hefyd yn rhoi fforwm i gyfnewid gwybodaeth a thrafod materion buddsoddi, ac mae'n ystyried materion o ddiddordeb cyffredin i holl fyrddau, pwyllgorau a staff gweinyddol cefnogi cronfeydd pensiwn, yn ogystal ag i bartïon eraill â diddordeb o lywodraethau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol.

8. Gallai dulliau buddsoddi ar y cyd cronfeydd pensiwn Cymru fuddsoddi gwerth hyd at £13 biliwn o asedau o bosibl. Mae angen lle yn nyluniad y cronfeydd asedau gwahanol i alluogi i ddulliau buddsoddi ar y cyd fuddsoddi'n uniongyrchol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy lleol.

Ar hyn o bryd mae Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol yng Nghymru'n gweithio tuag at sefydlu Dull Buddsoddi ar y Cyd. Prif amcan y gronfa gyfun yw cyflawni arbedion ar gostau rheoli buddsoddiad drwy raddfeydd economi, a rhoi mynediad at arian i amrywiaeth ehangach o gyfleoedd buddsoddi posib. Mae'r cronfeydd wedi gwneud datganiad clir yn nodi'r disgwyliad i fuddsoddiad o'r fath gael ei fuddsoddi er buddiannau gorau aelodau'r gronfa a thalwyr ehangach y dreth gyngor.

9. Dylai cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru ystyried gosod targed o 5% o gyfanswm buddsoddiad mewn prosiectau ynni adnewyddadwy erbyn 2020. Dylai hyn gynnwys buddsoddiad uniongyrchol mewn prosiectau newydd a buddsoddi yn y farchnad ailbweru. Gallai buddsoddiad gael ei sianelu drwy ddulliau buddsoddi ar y cyd neu drwy lwyfannau presennol neu gyrff megis y 'Llwyfan Seilwaith Pensiynau'.

Yn ddiweddar, gwnaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a Datblygu Economaidd (SCDE) fonitro buddsoddiad cronfa pensiwn fawr ecwiti uniongyrchol mewn prosiectau seilwaith. Mae eu harolwg wedi awgrymu bod nifer o rwystrau'n bodoli gan achosi prosiectau seilwaith anrhestredig yn cyfri am 1% yn unig o'u dyraniad asedau yn 2015, ac roedd isadeiledd gwyrdd yn cyfri am gyfran fechan iawn o hyd (1%)¹.

¹https://www.oecd.org/cgfi/resources/Progress_Report_on_Approaches_to_Mobilising_Institutional_Investment_for_Green_Infrastructure.pdf

Cynigodd yr SCDE nifer o argymhellion polisi lefel uchel² i lywodraethau hwyluso buddsoddiad sefydliadol mewn seilwaith ynni cynaliadwy. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl mewn nifer o'r argymhellion, megis creu polisi amgylchedd 'gradd fuddsoddi' a datblygu strategaeth seilwaith cenedlaethol.

10. Dylai cynlluniau pensiwn Cymru a Llywodraeth Cymru ymuno i nodi prosiectau ynni adnewyddadwy addas ar y cyd, sy'n fanteisiol i gymunedau lleol ac ar yr un pryd yn rhoi enillion tymor hir, wedi'u cysylltu â chwyddiant i gynlluniau pensiwn Cymru.

Oherwydd natur eu rhwymedigaethau, gall cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol fabwysiadu ymagwedd fwy tymor hir yn y cwmnïau maent yn buddsoddi ynddynt. Mae hyn yn eu galluogi i edrych y tu hwnt i'r chwarter nesaf ac mae hefyd yn golygu ei bod yn rhaid iddynt sicrhau bod eu henillion yn gynaliadwy'n ariannol ac yn amgylcheddol.

Roedd y drafodaeth mewn digwyddiad i archwilio rhai o'r cynigion yn dilyn eu cyhoeddi yn nodi natur benodol y buddsoddiadau y mae cronfeydd pensiwn yn chwilio amdanynt. Nododd efallai y byddai deiliaid cronfeydd eraill megis cymdeithasau tai yn bartneriaid mwy addas i brosiectau cyn dechrau adeiladu.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn rhagweithiol yn nodi prosiectau ynni adnewyddadwy posib a allai fod o fantais i Gymru drwy ei wasanaethau Ynni Lleol a Thwf Gwyrdd Cymru, a'r gwaith mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei wneud i hyrwyddo datblygu ynni cynaliadwy ar ystad Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith gydag Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Datblygu Lleol hefyd yn eu hannog i wneud yr un peth yn lleol. Ein rôl yw cefnogi dileu'r risgiau i'r prosiectau hyn cyhyd â phosib, a pharhau i annog Llywodraeth y DU i greu amgylchedd sefydlog ar gyfer buddsoddi mewn ynni o amrywiaeth o fuddsoddwyr posib, y gall rhai ohonynt dderbyn proffiliau risg uwch.

Mae ein gwasanaeth ynni lleol eisoes yn cynnal perthnasoedd â nifer o fuddsoddwyr posib, ac yn cefnogi grwpiau i ddod o hyd i'r arian datblygu angenrheidiol lle mae angen ar gyfraddau llog priodol. Mae hyn eisoes yn cynnwys helpu grwpiau i gynnig cyfrandaliadau.

Byddwn yn archwilio ymhellach sut gallwn gefnogi arianwyr posib i ddeall y cyfleoedd mewn ynni adnewyddadwy'n well wrth i ddyfodiad prosiectau y gellir buddsoddi ynddynt ddatblygu.

Modelau Eraill ar gyfer Buddsoddi

11. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygu corff cydweithredol, elusennol neu nid er elw newydd, sydd â brand clir ac sy'n

² http://www.keepeek.com/Digital-Asset-Management/oecd/environment/mapping-channels-to-mobilise-institutional-investment-in-sustainable-energy_9789264224582-en#page1

cefnogi buddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy Cymru, â'r nod o sefydlu'r corff erbyn diwedd 2019. Gallai'r endid hwn fod yn bartner lleol amlwg i ddatblygwyr a llwyfannau buddsoddi megis Abundance i adeiladu safleoedd ynni adnewyddadwy sylweddol, gan greu buddsoddiadau ar y cyd.

Credwn fod seilwaith ynni modern, effeithlon a dibynadwy yn bwysig i'n busnesau a'n cymunedau, ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi datblygu cenedlaeth ynni adnewyddadwy newydd.

Gwnaethom gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau ym mis Mawrth i greu sgwrs am y posibilrwydd o gael cwmni ynni i Gymru, a sut y gall hyn gyd-fynd â rôl Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu datgarboneiddio'r system ynni yng Nghymru. Mae cysylltu â phobl sydd â diddordeb yn y syniad cwmni gwasanaeth ynni wedi meithrin dealltwriaeth ar y cyd o'r gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt a sut gall Llywodraeth Cymru ychwanegu gwerth orau yn y maes hwn. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad annibynnol ar y gwaith hwn ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/publications/an-energy-company-for-wales/?lang=cy>

Mae prosiectau â model busnes dichonadwy wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn wrth ddenu buddsoddiad. Felly, rydym yn ystyried canolbwyntio adnoddau ar nodi a datblygu prosiectau dichonadwy o'r fath yn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau na sefydlu corff newydd sy'n canolbwyntio'n benodol ar fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Mae ein gwaith gyda Chyllid Cymru wrth ddatblygu'r Gronfa Ynni Lleol wedi rhoi profiad o'r sector i'r sefydliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael yn y Banc Datblygu Cymru sydd ar ddod.

12. Er mwyn galluogi mwy o berchnogaeth a rennir i gymunedau o ran prosiectau ynni adnewyddadwy sylweddol, mae angen mwy o anogaeth yng Nghymru yn y broses tendro a chynllunio. Dylai bod mwy o gyfrifoldeb ar gyrf mewn megis Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos sut mae eu proses cyflwyno tendr yn cyd-fynd â meini prawf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch sut y dylai'r ymagwedd at ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystad y Llywodraeth ddatblygu i gyflwyno amcanion cenedlaethau'r dyfodol orau. Bydd yr ymagwedd yn ystyried dyheadau ehangach datgarboneiddio, ac yn sicrhau bod datblygiadau ynni'n cynnal cyfran briodol o incwm a manteision yng Nghymru.

O ran y system gynllunio, rydym wedi ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol ar sawl achlysur dros y blynyddoedd diwethaf yn nodi'n glir y dylent fod mor ddefnyddiol â phosib i grwpiau cymunedol wrth ddatblygu eu ceisiadau am brosiectau ynni adnewyddadwy. Rhaid bod penderfyniadau cynllunio'n seiliedig ar asesiad effaith unrhyw ddatblygiad arfaethedig ni waeth pwy yw'r ymgeisydd.

Yn 2016, gwnaethom gomisiynu'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i ddarparu hyfforddiant i aelodau a swyddogion yr awdurdod cynllunio lleol ar nodi cynlluniau cymunedol, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion y mae grwpiau cymunedol yn eu hwynebu wrth lywio'r system gynllunio. Cynhaliwyd chwe sesiwn hyfforddiant â chyfanswm o 63 o bobl. Mae'r Gwasanaeth Ynni Lleol hefyd yn cefnogi cymunedau i ddatblygu ceisiadau cynllunio, gan esbonio'n glir manteision cymdeithasol ac economaidd eu cynigion, oherwydd bod y rhain yn ystyriaethau go iawn yn y broses gynllunio.

Rôl Llywodraeth Cymru

13. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol ar y camau gweithredu y mae pob adran Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau eu heffaith ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru a'r lleihad amcangyfrifedig yn yr allyriadau a gyflawnwyd. Dylai hyn gynnwys effaith rhaglenni buddsoddi a chamau gweithredu a gymerwyd i leihau defnydd ynni a chynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol, fel rhan o gynlluniau ar gyfer gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr yn gyffredinol ac fel rhan o adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i gyflwyno'r targed o ostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050, a bydd yn nodi ein llwybr datgarboneiddio drwy osod targedau dros dro a'r ddwy gyllideb garbon bum mlynedd erbyn diwedd 2018.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn rhoi fframwaith monitro ac adrodd cadarn ar waith sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru lunio 'datganiad terfynol' bob pum mlynedd, gan adrodd ar gynnydd pob cyfnod cyllideb garbon. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer asesiad mwy cywir o gynnydd, gan ddileu anghysondebau a sensitifeddu sy'n gallu dylanwadu ar ffigurau camarweiniol a'u llywio'n flynyddol. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â Llywodraeth y DU a chynghor gan Fframwaith y Cenhedloedd Unedig – Confensiwn ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC).

Nid yw'r Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr, a fydd yn cyflwyno'r data allyriadau rydym yn adrodd yn eu herbyn, yn dangos cynnydd ar lefel bolisi neu weithgareddau. Felly, bydd yr adroddiad polisiâu a chynigion yn cael ei drefnu i adlewyrchu'r cyfraniad y mae rhaglenni a chamau gweithredu yn eu gwneud tuag at feysydd portffolio priodol ac amryfal o bosib.

Yn ogystal ag adrodd bob pum mlynedd ar gynnydd yn erbyn ein cyllideb garbon, byddwn yn adrodd ar gyfanswm ein hallyriadau o dan ein fframwaith dangosydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

14. Dylai prosiectau adnewyddadwy fod wrth wraidd strategaeth gydlynol ac uchelgeisiol i roi hwb i economi Cymru sy'n cynnwys pob adran yn Llywodraeth Cymru. Dylai Twf gwyrdd Cymru hyrwyddo'i waith sydd yn yr arfaeth yn fwy eang i greu'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer cydweithredu a chynnwys y gymuned.

Mae cydweithio'n bwysig i sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar ei hamgylchedd naturiol. Bydd Llywodraeth Cymru'n bodloni ei dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 o gyhoeddi'r Cynllun Cyflwyno Carbon Isel ym mis Mawrth 2019, a fydd yn amlinellu amrywiaeth o bolisiau a chynigion Llywodraeth Cymru i ddatblygu datgarboneiddio. Bydd y cynllun yn cynnwys ardaloedd lle ysgogir Twf Gwyrdd ac y bydd hynny'n digwydd yn y dyfodol.

Bydd ynni adnewyddadwy, heb os, yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi economi gynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar roi ymdrech sylweddol i sicrhau bod Cymru'n manteisio ar brosiectau ynni carbon isel yng Nghymru. Mae datblygiad gwynt Vattenfall ym Mhen y Cymoedd, y datblygiad gwynt ar y tir mwyaf yng Nghymru a Lloegr, wedi sicrhau dros 1,000 o swyddi, gyda £220 miliwn o'r £400 miliwn o gostau datblygu yn cael ei wario yng Nghymru. Bydd y gronfa Manteision Cymunedol yn creu £1.8m i'r economi leol yn flynyddol. Gwnaed y manteision hyn yn bosibl gan mwyaf drwy'r mecanweithiau cefnogi ynni a oedd ar gael ar y pryd. Mae angen i ni reoli disgwyliadau o broffidioldeb cynlluniau ynni o bob math yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi astudiaethau rhagolwg llafur a gofynion sgiliau ar gyfer prosiect morlyn llanw 320MW Bae Abertawe. Wrth adolygu morlynnoedd, mae Charles Hendry yn cydnabod yr ymagwedd integredig rydym wedi'i defnyddio ar ddatblygu cadwyn sgiliau a chyflenwi wrth gefnogi'r sector pwysig hwn.

Mae'r hyn sydd yn yr arfaeth yn bresennol ar gyfer Twf Gwyrdd Cymru'n llawn prosiectau effeithlonrwydd ynni. Mae prosiectau ynni adnewyddadwy hefyd yn amlwg yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i gynnwys y gymuned. Mae'r lleihad mewn cymhorthdal wedi peri i nifer o brosiectau oedi. Mae tîm Twf Gwyrdd Cymru'n datblygu modelau masnachol newydd a allai fod yn llwyddiannus wrth ailysgogi'r prosiectau. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried cyfleoedd i hyrwyddo cydweithio a pherchnogaeth leol lle mae prosiectau'n ddichonadwy.

Mae angen i'n gwasanaethau cyhoeddus arwain wrth esiampol drwy wella effeithlonrwydd ynni, gosod technoleg ynni adnewyddadwy a cheisio caffael eu hanghenion ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy.

Rydym yn archwilio ffyrdd y gall y sector cyhoeddus helpu i ysgogi datblygiadau newydd drwy leihau'r risgiau datblygu. Gallai hyn gynnwys defnyddio grym prynu cyfunedig y sector cyhoeddus i arddangos incwm tymor hir.

15. Dylai cadwyni cyflenwi lleol gael eu blaenoriaethu mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni a gyflwynir yng Nghymru gyhyd â phosibl. I gyflawni hyn, mae rhan o'r ateb yn cynnwys gwella sgiliau'r sector adeiladu BaCh mewn modd strategol a gwyrdd yng Nghymru, fel y gall contractwyr yng Nghymru gystadlu â chwmnïau ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Ein nod yw economi carbon isel sy'n cyflwyno swyddi a ffyniant tymor hir gan weithio mewn partneriaeth â busnesau a chymunedau.

Mae cynlluniau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd domestig Llywodraeth Cymru, dan Raglen *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru*, eisoes wedi'u llunio i greu'r cyfleoedd gorau posibl am swyddi newydd, hyfforddiant a chyflogaeth gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Creodd y cynllun *Cartrefi Clyd – Arbed 2*, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop fwy na 470 o swyddi a chyflwyno mwy na 60,000 o oriau o hyfforddiant mewn technoleg lân i weithwyr presennol a newydd. Roedd hyn yn cynnwys creu 40 o brentisiaethau newydd drwy'r gadwyn gyflenwi, o logisteg i weinyddu ac arolygu i reoli prosiectau. Cafwyd 66 o leoliadau hefyd dan y Rhaglen Esgyn.³ Bydd y cyfleoedd hyn yn parhau i gael eu cynnig dan raglen *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru* oherwydd eu bod yn rhan bwysig o'r manteision cymunedol a gyflwynir gan y rhaglen.

Yn ogystal, mae gan y rhaglen *Cartrefi Clyd – Nest 38* o fentrau bach a chanolig lleol wedi'u contractio ar y cynllun ar hyn o bryd, gan gyflogi dros 300 o weithredwyr, ac mae wedi cefnogi 49 o swyddi a phrentisiaethau'n uniongyrchol yn 2015–16 yn unig.

Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio rheolwyr cynllun i gyflwyno'r cynlluniau *Nest* ac *Arbed* newydd, a fydd yn parhau i gael eu llunio i gynyddu swyddi, hyfforddiant a chyflogadwyedd cymaint â phosibl. Bydd manylebau'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â hyfforddiant, swyddi lleol newydd ac unrhyw gyfleoedd eraill a allai fod ar gael.

16. Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i alluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol fod yn gymwys am Gymorth Treth Buddsoddi Cymdeithasol.

Nid yw hyn wedi cael ei drafod â ni hyd yn hyn. Byddem yn hapus i dderbyn mwy o wybodaeth gan y Sefydliad Materion Cymreig, neu gan brosiectau yr effeithir arnynt gan hyn, gan gefnogi'r achos i fynd at Lywodraeth y DU am y pwnc hwn. Os oes gan y Sefydliad Materion Cymreig neu unrhyw gyrff eraill dystiolaeth a chynigion mewn perthynas â Chymorth Treth Buddsoddi Cymdeithasol, byddem yn hapus i'w trafod.

³Nod Rhaglen Esgyn Llywodraeth Cymru yw darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio.

17. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cymorth trethu busnes i amrywiaeth o brosiectau technoleg ynni adnewyddadwy, er mwyn datblygu cyfranogiad y gymuned mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy, fel a roddwyd ar waith eisoes yn yr Alban.

Yn ddiweddar, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cwblhau ail-werthuso arfer cyfraddau (busnes) annomestig 2017. Corff annibynnol yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio â chyfrifoldeb dros asesu eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr yn unol â methodoleg a nodir mewn deddfwriaeth. Dan y prisiad blaenorol a gynhaliwyd yn 2010, yn seiliedig ar werthoedd 2008, roedd tybiaethau incwm yn isel iawn, yn seiliedig ar nifer bach o gynlluniau â chostau uchel neu ddim cymhorthdal. Mae ailwerthusiad 2017 wedi ystyried costau cyfalaf llai a lefelau cymharol uchel o gymhorthdal, gan achosi cynnydd mewn gwerthusiad ar gyfer sawl prosiect.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi gweithio gyda chymdeithasau masnach i gytuno ar yr ymagweddau prisio a'r fethodoleg ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae dau fater yn parhau heb eu datrys mewn perthynas â'r effaith y mae'r ailwerthusiad yn ei chael ar brosiectau ynni adnewyddadwy.

Mae cynhyrchu ynni solar pen to yn denu lefel uwch o werth ardreth os yw ar gyfer defnyddio'n bersonol, yn hytrach na bod ar werth i'r grid neu ddefnyddiwr arall. Gellir mynd i'r afael â'r mater hwn drwy sefydlu dull masnachu ar wahân.

Mae'r sector ynni dŵr yn ystyried ei fod yn cael ei effeithio'n anghymesur, yn rhannol oherwydd y costau cyfalaf uchel ac effaith y tybiaethau o amgylch rhannu'r costau hyn yn yr asesiad prisio. Efallai ceir materion hefyd ynghylch y modelau busnes a ddefnyddir gan y diwydiant, sy'n ceisio adennill costau cyfalaf dros gyfnod gweddol fyr o gymharu â bywyd cyffredinol y prosiect.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o sgysiau ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ddeall y materion hyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda chynrychiolwyr prosiectau yr effeithir arnynt i asesu effaith ailwerthusiad 2017 a gynhaliwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar yr amrywiaeth o gefnogaeth a allai gael ei darparu.

Mae amrywiaeth o gynlluniau'n bodoli i helpu busnesau bach gyda'u cyfraddau annomestig. Mae Cymorth Cyfraddau Busnesau Bach wedi'i estyn tan 31 Mawrth 2018 ac yn darparu gwerth £100m o gefnogaeth i fwy na 70,000 o drethdalwyr. Mae busnesau bach yn gymwys am y cymorth cyfradd hwn, sy'n rhoi cymorth o 100% dan werth ardrethol £6,000 ac ychydig llai o gymorth rhwng £6,000 a £12,000.

O'r flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflwyno cynllun Cymorth Cyfraddau Busnesau Bach parhaol newydd ac rydym wedi lansio ymgynghoriad yn gofyn sut gallem wneud y cynllun yn fwy hael i drethdalwyr, gan gynnwys cynlluniau ynni dŵr. Rydym hefyd yn chwilio am safbwyntiau ynglŷn ag a ddylem, ar ôl 2018, ganolbwyntio cefnogaeth ar fusnesau sy'n unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – yn gymdeithasol, yn economaidd neu'n amgylcheddol.

Mae cynllun Cymorth Cyfradd Dros dro gwerth £10m hefyd wedi cael ei gyflwyno a fydd yn helpu busnesau yr effeithir yn negyddol ar eu hawl i Gymorth Cyfraddau Busnesau Bach erbyn ailwerthusiad 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn agored i unrhyw fusnesau cymwys sy'n bodloni'r meini prawf, gan gynnwys prosiectau ynni cymunedol. Rydym yn ymwybodol o'r pryderon ynghylch effaith bosib yr ailwerthusiad cyfraddau ar rai prosiectau ynni adnewyddadwy newydd a phresennol, ac wedi bod yn gweithio gyda chymunedau a'r diwydiant i gasglu tystiolaeth o effaith yr ail-werthuso ar dechnoleg benodol.

18. Rhaid bod gan y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru dargedau ar gyfer cefnogi lleoli ynni adnewyddadwy a'r seilwaith cysylltiedig.

Bydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol strategol tymor hwy. Wrth wneud hynny, bydd rhaid iddo ystyried amrywiaeth o bolisiau a nodau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys targedau ynni adnewyddadwy.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda darparwyr y rhwydwaith dosbarthu a thrawsyrro, sy'n berchen ar y grid trydan a nwy ac yn ei reoli, i sicrhau bod cynlluniau datblygu sefydliadau'n ystyried anghenion Cymru nawr ac yn y dyfodol.